

Y  
Comisiwn  
Etholiadol

# Etholiadau Lleol yng Nghymru, Mai 2017

Medi 2017

## Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

# 1 Cyflwyniad

1.1 Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn casglu ac yn dadansoddi data etholiadol ar ôl pob etholiad a refferendwm.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad o'r broses o gymryd rhan yn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd yng Nghymru ar 4 Mai 2017, ynghyd â'r broses o'u gweinyddu. Ar gyfer hyn, casglwyd data gan Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys Ffurflen K 'Datganiad o ran Papurau Pleidleisio drwy'r Post' a ffurflen data ychwanegol, a oedd yn cynnwys data yn ymwneud â chofrestru etholiadol, y nifer a bleidleisiodd, pleidleisio absennol a phapurau pleidleisio a wrthodwyd.

1.3 Trefnwyd etholiadau lleol mewn 852 o wardiau yn y 22 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. O'r 1,254 o seddi a oedd ar gael, ymladdwyd 1,161 ohonynt a chafodd 92 o ymgeiswyr eu hailethol yn ddiwrthwynebiad. Cafodd etholiadau eu gohirio mewn dwy ward ac ni safodd unrhyw ymgeiswyr ar gyfer etholiad mewn un sedd ym Mhowys.<sup>1</sup>

<b>Etholwyr</b>	2.3 miliwn
<b>Nifer y pleidleiswyr</b>	Blwch pleidleisio: 42.0% (895,943 o bleidleisiau) Pleidleisio drwy'r post: 69.7% Yn bersonol: 36.3%
<b>Papurau pleidleisio a wrthodwyd</b>	Papurau pleidleisio yn y cyfrif: 0.5% Pleidleisiau post: 3.2%
<b>Dirprwyon a benodwyd</b>	2,873 (0.1% o'r etholwyr) 167 o ddirprwyon brys

## 2 Etholwyr

2.1 Cafodd mwy na 2.1 miliwn o etholwyr cofrestredig gyfle i bleidleisio yn yr etholiadau.<sup>2</sup> Ers mis Rhagfyr 2016, mae hyn yn gynnydd o 1.0% yn nifer yr etholwyr ledled Cymru, sy'n amrywio o gynnydd o 4.2% yn Sir y Fflint i ostyngiad o 3.2% yn Wrecsam.

---

<sup>1</sup>Cynhaliwyd yr etholiadau yn y ddwy ward a ohiriwyd, Merthyr a Cheredigion, ar 8 Mehefin 2017. Cynhaliwyd yr etholiad ym Mhowys ar 22 Mehefin 2017.

<sup>2</sup> Heb gynnwys 144.598 mewn wardiau diwrthwynebiad.

2.2 Ychwanegwyd mwy na 20,000 o etholwyr (0.94% o'r etholwyr mewn wardiau a ymladdwyd) at y gofrestr etholiadol yn ystod yr wythnosau yn arwain at yr etholiad. Fel cyfran o'r etholwyr, roedd hyn ar ei uchaf yng Ngwynedd, lle roedd ychwanegiadau yn cynrychioli 2.6% o'r etholwyr mewn wardiau a ymladdwyd, ac roedd ar ei isaf yn Rhondda Cynon Taf, lle roedd ychwanegiadau yn cynrychioli 0.3% o'r etholwyr mewn wardiau a ymladdwyd.

2.3 Cafwyd cyfanswm o 25,587 o geisiadau i gofrestru yn yr wythnosau yn arwain at yr etholiad.<sup>3</sup> Cofnodwyd bron i chwarter o'r rhain (22.5%) fel cofnodion dyblyg. Ar lefel awdurdod lleol, nodwyd bod cynifer â 43% o gofnodion dyblyg yn Sir Ddinbych a 41.4% yn Abertawe.

2.4 Yn ogystal, gwnaeth 31,003 o unigolion gais i gofrestru i bleidleisio ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cofrestru. Mae'n debygol y gellid priodoli hyn i amseru cyhoeddiad yr etholiad cyffredinol, a ddaeth ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ar gyfer etholiadau'r cyngor. Yn seiliedig ar ddata o 14 o awdurdodau lleol, cofnodwyd bod 187 o unigolion wedi ceisio pleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad er nad oeddent wedi cofrestru.<sup>4</sup>

2.5 Bwriwyd pleidleisiau mewn 2,254 o orsafoedd pleidleisio yn ogystal â thrwy'r post.

## 3 Nifer y pleidleiswyr

3.1 Mae'r dull o fesur nifer y pleidleiswyr y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, 'nifer y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio', yn cynnwys pob pleidlais ddilys a fwriwyd ('nifer y papurau pleidleisio gyda phleidleisiau dilys') a phleidleisiau a wrthodwyd yn y cyfrif. Mae 'cyfanswm y pleidleiswyr' yn cyfeirio at y pleidleisiau dilys a fwriwyd, y pleidleisiau a wrthodwyd yn y cyfrif, a'r rhai a wrthodwyd ar y cam dilysu papurau pleidleisio drwy'r post cyn y cyfrif. Mae Tabl 3.1 yn cadarnhau mai dim ond cyfran fach o bleidleiswyr sy'n ceisio pleidleisio ond sy'n methu â gwneud hynny'n llwyddiannus.

---

<sup>3</sup> Yn seiliedig ar ddata o 21 o awdurdodau lleol. Methodd Merthyr Tudful â darparu'r wybodaeth hon.

<sup>4</sup> Methodd wyth awdurdod lleol â darparu'r wybodaeth hon.

**Tabl 3.1:** Nifer y pleidleiswyr

	<b>Etholwyr</b>	<b>Nifer y papurau pleidleisio gyda phleidleisiau dilys</b>	<b>Nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio</b>	<b>Cyfanswm a bleidleisiodd</b>	<b>Y gwahaniaeth yn y pleidleisiau dilys – cyfanswm (pc)</b>
<b>2017</b>	2.28 m	41.8%	42.0%	42.4%	0.6
<b>2012/2013<sup>5</sup></b>	2.31 m	38.7%	38.9%	39.4%	0.7
<b>2008</b>	2.11 m	43.7%	44.0%	44.5%	0.8

3.2 Roedd nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio yn 42.0%, sy'n uwch na'r 38.9% yn etholiadau llywodraeth leol 2012/2013 yng Nghymru ond sydd dal yn is nag etholiadau 2008.

3.3 Amrywiodd y nifer a bleidleisiodd o 36.3% yng Nghaerffili a Chasnewydd i 53.0% yng Ngheredigion, a chynyddodd ym mhob awdurdod lleol heblaw am Ynys Môn. Ar lefel ward, amrywiodd y nifer a bleidleisiodd o 17.2% yn Nhrefforest (Rhondda Cynon Taf) i 69.9% ym Methel (Gwynedd).

**Tabl 3.2:** Y nifer a bleidleisiodd 2012/2013 – 2017

<b>Awdurdod lleol</b>	<b>2012/13</b>	<b>2017</b>	<b>Newid (pc)</b>
Blaenau Gwent	37.7%	40.0%	2.3
Pen-y-bont ar Ogwr	34.4%	39.9%	5.5
Caerffili	36.0%	36.3%	0.3
Caerdydd	38.0%	42.8%	4.8
Sir Gaerfyrddin	44.5%	46.8%	2.3
Ceredigion	46.8%	53.0%	6.2
Conwy	38.0%	41.5%	3.5
Sir Ddinbych	39.1%	42.4%	3.3
Sir y Fflint	36.9%	38.5%	1.6
Gwynedd	48.3%	52.1%	3.8
Ynys Môn	50.5%	45.9%	-4.6

<sup>5</sup> Ym mis Mai 2012, cynhaliwyd etholiadau lleol yn 21 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Cafodd yr etholiadau ar gyfer Ynys Môn eu gohirio tan fis Mai 2013. Ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'r ffigurau o etholiadau 2012 yng Nghymru wedi cael eu cyfuno â'r ffigurau ar gyfer etholiadau lleol 2013 yn Ynys Môn.

Merthyr Tudful	37.3%	37.7%	0.4
Sir Fynwy	38.1%	46.7%	8.6
Castell-nedd Port Talbot	39.4%	42.3%	2.9
Casnewydd	33.9%	36.3%	2.4
Sir Benfro	45.8%	47.5%	1.7
Powys	46.7%	47.2%	0.5
Rhondda Cynon Taf	36.1%	39.9%	3.9
Abertawe	36.5%	38.1%	1.7
Torfaen	37.2%	37.5%	0.4
Bro Morgannwg	39.3%	46.1%	6.8
Wreccsam	34.2%	40.0%	5.9

## Papurau pleidleisio a wrthodwyd

3.4 Cyfran y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y cyfrif oedd 0.5%. Mae hyn yn cymharu â 0.6% yn etholiadau llywodraeth leol 2012/2013.

3.5 Ar lefel awdurdod lleol, roedd hyn yn amrywio o 0.2% yng Nghasnewydd i 0.8% yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ar lefel ward, gwrthododd dwy ward fwy na 3% o bapurau pleidleisio yn y cyfrif ac ni wrthododd 52 o wardiau unrhyw bapur pleidleisio.

3.6 Gwrthodwyd y mwyafrif helaeth o bapurau pleidleisio (70.6%) am beidio â chael eu marcio neu am fod yn gwbl ddi-rym oherwydd ansicrwydd. Gwrthodwyd mwy na chwarter (26.5%) am eu bod wedi pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd.

## 4 Pleidleisio drwy'r post

4.1 Cyfanswm y pleidleisiau post a anfonwyd ar gyfer yr etholiadau hyn oedd 387,909, gan gynrychioli 18.2% o'r holl etholwyr sydd ag etholiad a ymleddir yn eu ward. Mae hyn yn cymharu â 17.4% yn etholiadau 2012/2013. Ar lefel ward, roedd hyn yn amrywio o 6.3% yn Cathays (Caerdydd) a Threfforest (Rhondda Cynon Taf) i 31.5% yn Nwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (Powys).

4.2 Mae cyfran y pleidleiswyr drwy'r post sy'n dychwelyd eu papurau pleidleisio bob amser yn fwy na'r nifer sy'n pleidleisio 'yn bersonol'. Eleni, defnyddiodd 69.7% o etholwyr drwy'r post eu pleidlais bost o gymharu â 36.3% a bleidleisiodd yn bersonol.

**Tabl 4.1:** Y nifer a bleidleisiodd drwy'r post o gymharu â'r nifer a bleidleisiodd yn bersonol

	<b>Pleidleisio drwy'r post</b>	<b>Yn bersonol</b>
<b>2017</b>	69.7%	36.3%
<b>2012/13</b>	68.3%	33.3%
<b>2008</b>	71.4%	40.0%

4.3 Roedd pleidleisiau post yn cyfrif am 29.2% o'r holl bleidleisiau a gafodd eu cynnwys yn y cyfrif. Mae hyn yn cymharu â 29.3% yn 2012/13 a 22.2% yn 2008.

## Papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd

4.4 Mae pecynnau pleidleisio drwy'r post yn ei gwneud yn ofynnol i bleidleiswyr roi eu llofnod a'u dyddiad geni. Yna, caiff y manylion adnabod hyn eu cyfateb i'r rhai a roddwyd ar adeg gwneud y cais. Os nad yw'r llofnod neu'r dyddiad geni yn cyfateb, caiff y bleidlais bost ei gwrthod ac ni chaiff ei chynnwys yn y cyfrif.

4.5 Ers 2014, mae wedi bod yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol hysbysu etholwyr os bydd eu pleidlais bost wedi'i gwrthod. Gallant hefyd ofyn i'r etholwr roi llofnod newydd.

**Tabl 4.2:** Papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd

<b>Blwyddyn</b>	<b>Papurau pleidleisio a wrthodwyd fel % o'r amlenni a ddychwelwyd</b>
<b>2017</b>	3.2%
<b>2012/13</b>	4.4%
<b>2008</b>	4.8%

4.6 Gwrthodwyd cyfanswm o 8,695 o bleidleisiau post gan Swyddogion Canlyniadau ledled Cymru. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd wrthod o 3.2%, o gymharu â 4.4% yn 2012/13 a 4.8% yn 2008. Mae'r gostyngiad yn lefelau'r

pleidleisiau post a wrthodwyd yn awgrymu y gall fod y polisi newydd yn cael effaith gadarnhaol.

4.7 Y rheswm mwyaf cyffredin dros wrthod pleidlais bost, sy'n cyfrif am 43.3% o'r papurau pleidleisio a wrthodir, yw gwybodaeth nad yw'n cyfateb. Mewn bron i draean o'r achosion o wrthod (31.8%), roedd pleidleiswyr wedi dychwelyd eu hamlenni pleidleisio drwy'r post ond wedi methu â chynnwys y papur pleidleisio ei hun neu'r datganiad dilysu, neu'r ddau.

**Tabl 4.3:** Rhesymau dros wrthod datganiad pleidleisio drwy'r post

	Gwybodaeth ar goll			Gwybodaeth ddim yn cyfateb			Ffurflenni ar goll	
	Llofnod	Dyddiad Geni	Y ddau	Llofnod	Dyddiad Geni	Y ddau	Papur pleidleisio	Datganiad pleidleisio drwy'r post
<b>2017</b>	9.4%	9.6%	5.9%	14.5%	22.5%	6.4%	14.4%	17.4%
<b>2012/13</b>	5.2%	4.3%	15.7%	19.1%	7.1%	8.5%	13.4%	26.8%
<b>Newid (pc)</b>	4.3	5.3	-9.8	-4.6	15.4	-2.1	0.9	-9.4

## 5 Dirprwyon a hepgoriadau

5.1 Nifer yr etholwyr yng Nghymru a benododd ddirprwy oedd 2,873 (0.1% o'r etholwyr). Mae hyn yn gyson â 2012/13 a 2008.

5.2 Nifer y pleidleisiau drwy ddirprwyon brys a anfonwyd oedd 167. Mae hyn fwy na phum gwaith yn uwch nag yn 2012/13 pan anfonwyd 30 o bleidleisiau drwy ddirprwyon brys.

5.3 Roedd consesiwn a roddwyd dan delerau Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 yn nodi y gallai etholwyr drwy'r post oedd ag anabledd, neu oedd yn anllythrennog, neu nad oeddent yn gallu llunio llofnod cyson wneud cais am hepgoriad i ddefnyddio eu dyddiad geni fel yr unig fanylyn i'w hadnabod.

5.4 Cafodd cyfanswm o 2,707 o bleidleiswyr hepgoriad o'r fath ar gyfer yr etholiad hwn, sy'n cynrychioli 0.7% o etholwyr drwy'r post.



## 6 Atodiad A

6.1 Mae anghysondebau o hyd yn y ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn cofnodi ac yn adrodd gwybodaeth.

6.2 Rydym yn dal i sylwi ar wahaniaethau yn y dull o godio gwybodaeth gan feddalwedd rheoli etholiadol gwahanol. Er enghraifft, mae cwsmeriaid un cyflenwr meddalwedd rheoli etholiadol yn gyson yn nodi cyfran uwch o wybodaeth nad yw'n cyfateb o gymharu ag eraill.

6.3 Mae'n ymddangos bod anghysondebau yn ymwneud â'r rhesymau dros wrthod pleidleisiau post a chyfanswm y pleidleisiau post a wrthodir ar Ffurflen K yn deillio o'r ffaith y gellir eu dehongli a'u trin yn wahanol. Er enghraifft, wrth drin nifer y prif amlenni a'r papurau pleidleisio a ddychwelwyd, gellir anfon prif amlenni heb gynnwys amlen A neu ddatganiad pleidleisio drwy'r post, a gall y ddogfen goll fod wedi'i hanfon mewn prif amlen ar wahân yn ddiweddarach, neu gall sawl papur pleidleisio fod wedi'u dychwelyd mewn un amlen.

6.4 Pan gysylltir ag awdurdodau lleol ynghylch anghysondebau o'r fath, yn aml ni allant roi ffigurau diwygiedig neu ni allant egluro pam roedd y data wedi'u codio yn y fath fodd. Yn ymarferol, rydym yn defnyddio cyfrifiad maes B6 tynnu maes C18 yn lle cyfanswm y pleidleisiau post a wrthodwyd ni waeth p'un a yw'r ffigur yr un fath â'r hyn a gofnodir ym maes C19.

6.5 Nid yw'r rhesymau gwahanol dros wrthod a gasglwyd ar y ffurflen ddata ychwanegol bob amser yn cyfateb i'r cyfrifiad B6 tynnu C18 hwn. Fodd bynnag, mae'r anghysondebau yn ymddangos yn llai difrifol ac mae gan y categorïau y fantais o fod wedi'u cynnwys mewn meddalwedd ac o gael ystyr fwy 'synnwyr cyffredin'. Byddai'n ymddangos yn synhwyrol ystyried cael tri chategori cyfunol arall yn lle meysydd B15-17 ar Ffurflen K: gwrthod am nad oedd y wybodaeth yn cyfateb; gwrthod am fod y wybodaeth adnabod ar goll; gwrthod am fod dogfennaeth ar goll. Fel ag y mae, mae maes B15 yn afraid i raddau helaeth am fod bron pob awdurdod bellach yn dilysu 100% o bleidleisiau post a ddychwelir.

6.6 Nid oes unrhyw faes sy'n nodi nifer y datganiadau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau neu mewn gorsaf bleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Yn ymarferol, rydym yn defnyddio maes B6, 'Nifer y prif amlenni a dderbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau neu mewn gorsaf bleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio' yn lle hynny, ond gwyddom, fel y nodwyd, y gall etholwyr ddychwelyd mwy nag un bleidlais bost mewn un amlen neu ddychwelyd amlenni heb bapurau pleidleisio ynddynt.

# 7 Atodiad B

<b>Ffurflen K: DATGANIAD O RAN PAPURAU PLEIDLEISIO DRWY'R POST</b>
<b>ETHOLIAD LLYWODRAETH LEOL</b>
<b>A. Anfon papurau pleidleisio drwy'r post</b>
1. Cyfanswm y papurau pleidleisio drwy'r post a anfonwyd o dan reoliad 71
2. Cyfanswm y papurau pleidleisio drwy'r post a anfonwyd o dan reoliad 77 (a ddifethwyd ac a ddychwelwyd i'w canslo), rheoliad 78 (a gollwyd neu nas derbyniwyd) a rheoliad 78A (a ganslwyd am fod y cyfeiriad wedi newid)
3. Cyfanswm y papurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd o dan reoliad 86A (lle y cafodd y papur pleidleisio cyntaf ei ganslo a'i adalw)
4. Cyfanswm y papurau pleidleisio drwy'r post a anfonwyd (1 i 3)
5. Cyfanswm y papurau pleidleisio a ganslwyd o dan reoliad 78A
<b>B (1). Derbyn papurau pleidleisio drwy'r post ac anfon rhai newydd</b>
6. Nifer y prif amlenni a dderbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau neu mewn gorsaf pleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio (heb gynnwys unrhyw rai nas dosbarthwyd neu a ddychwelwyd o dan reoliad 77(1) (difethwyd), rheoliad 78(1) (collwyd) a rheoliad 86A (papurau pleidleisio a ganslwyd)
7. Nifer y prif amlenni a dderbyniwyd gan y swyddog canlyniadau ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio, ac eithrio unrhyw rai a ddychwelwyd fel papurau nas dosbarthwyd
8. Nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd wedi'u difetha i'w canslo mewn pryd i allu anfon papur pleidleisio arall
9. Nifer y papurau pleidleisio drwy'r post y nodwyd eu bod wedi'u colli neu heb eu dosbarthu mewn pryd i allu anfon papur pleidleisio arall
10. Nifer y papurau pleidleisio a ganslwyd ac a adalwyd mewn pryd i allu anfon papur pleidleisio arall
11. Nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd fel papurau wedi'u difetha yn rhy hwyr i allu anfon papur pleidleisio arall
12. Nifer y prif amlenni a ddychwelwyd fel amlenni nas dosbarthwyd (hyd at y 25ain diwrnod ar ôl y dyddiad pleidleisio)
13. Nifer y prif amlenni nas derbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau (erbyn y 25ain diwrnod ar ôl y dyddiad pleidleisio)
14. Cyfanswm y niferoedd ar gyfer 6 i 13 (dylai hwn fod yr un peth â'r cyfanswm yn eitem 4 uchod)
<b>B (2). Derbyn papurau pleidleisio drwy'r post – Manylion Adnabod Personol</b>
15. Nifer y prif amlenni a roddwyd o'r neilltu er mwyn dilysu'r manylion adnabod personol ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post
16. Nifer y datganiadau pleidleisio drwy'r post a fu'n destun gweithdrefn ddilysu ac a wrthodwyd fel datganiadau nas llenwyd (ac eithrio'r rhai a ganslwyd ymlaen llaw)

17. Nifer y datganiadau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd yn dilyn gweithdrefnau dilysu am nad oedd y manylion adnabod personol ar y datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rhai yn y cofnod o fanylion adnabod personol (heb gynnwys y rhai a ganslwyd ymlaen llaw)
<b>C. Cyfrif papurau pleidleisio drwy'r post</b>
18. Nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd gan bleidleiswyr post a gafodd eu cynnwys yn y broses o gyfrif papurau pleidleisio
19. Nifer yr achosion lle y rhoddwyd y gair "Gwrthodwyd" ar brif amlen neu ar ei chynnwys (nid yw pleidleisiau a ganslwyd o dan reoliadau 77, 78, 78A na 86A yn cyfrif fel rhai a wrthodwyd a dylid eu cynnwys yn eitemau 2, 3, 5, 8, 9 a 10 uchod)

<b>Ffurflen data ychwanegol</b>
1) Sawl dirprwy a benodwyd ar gyfer yr etholiadau hyn?
2) Sawl dirprwy brys a benodwyd ar gyfer yr etholiadau hyn?
3) Sawl hepgoriad a gymeradwywyd ar gyfer yr etholiadau hyn?
4) Sawl pleidlais bost a wrthodwyd am y rhesymau canlynol:
a) Bod llofnod ar goll
b) Bod dyddiad geni ar goll
c) Bod y ddau ar goll
d) Nid oedd y llofnod yn cyfateb
e) Nid oedd y dyddiad geni yn cyfateb
f) Nid oedd y naill na'r llall yn cyfateb
g) Nid oedd y papur pleidleisio wedi'i ddychwelyd
h) Nid oedd datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i ddychwelyd
5) Beth oedd cyfanswm nifer y gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddiwyd?
6) Sawl prif amlen a ddychwelwyd cyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio?
7) Sawl prif amlen a ddychwelwyd cyn 10pm y diwrnod ar ôl y diwrnod pleidleisio?
8) Cyfanswm yr etholwyr newydd a ychwanegwyd at y gofrestr ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig hyd at ac yn cynnwys y rhai a ychwanegwyd drwy'r hysbysiad newid dros dro cyntaf
9) Cyfanswm yr etholwyr newydd a ychwanegwyd at y gofrestr rhwng yr ail hysbysiad newid a'r un olaf
10) Sawl cais i gofrestru a ddaeth i law ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cofrestru?
11) Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law rhwng y dyddiad olaf i geisiadau gael eu cyfrif ar gofrestr ddiwygiedig Rhagfyr 2016 a'r dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau am yr hysbysiad newid dros dro cyntaf
12) Cyfanswm y ceisiadau dyblyg a ddaeth i law rhwng y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau i gael eu cynnwys ar gofrestr ddiwygiedig Rhagfyr 2016 a'r dyddiad olaf i gofrestru ar gyfer yr hysbysiad newid dros dro cyntaf
13) Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law rhwng y diwrnod ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau am yr hysbysiad newid dros dro cyntaf a'r dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau am yr hysbysiad newid olaf
14) Cyfanswm y ceisiadau dyblyg a ddaeth i law rhwng y diwrnod ar ôl y dyddiad

olaf ar gyfer ceisiadau am yr hysbysiad newid cyntaf a'r dyddiad olaf ar gyfer  
ceisiadau am yr hysbysiad newid olaf

15) Faint o bobl a geisiodd bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio a chanfuwyd nad  
oeddent wedi'u cofrestru?